# Adroddiad Arolygu

**Meithrinfa Y Pelican Cyf**

**Ysgol Santes Anne**
**Stryd Croft**
**Caerdydd**
**CF24 3DZ**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

03/08/2023

# Meithrinfa Y Pelican Cyf

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Meithrinfa Y Pelican CYF |
| Lleoedd cofrestredig | 44 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 11 Ebrill 2019 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac yn gallu gwneud dewisiadau a phenderfyniadau yn annibynnol. Maent yn meithrin cydberthnasau agos a chynnes â'r staff a'r plant eraill. Maent yn mwynhau amrywiaeth o gyfleoedd diddorol dan do ac yn yr awyr agored, sy'n ennyn chwilfrydedd a diddordeb.

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn broffesiynol, yn meddu ar y cymwysterau priodol ac yn mwynhau eu gwaith. Mae'r staff yn garedig, yn ofalgar ac yn rhyngweithio'n dda â'r plant. Mae'r staff yn hybu chwarae, dysgu a datblygiad y plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn dda.

Mae'r safle yn ddiogel, ac yn cael eu cynnal yn addas. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr amgylchedd yn addas dan do ac yn yr awyr agored, gydag ystod dda o deganau ac adnoddau ar gyfer oedran a chamau datblygu'r plant sy'n cael gofal.

Mae'r trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymroddedig i wneud gwelliannau ac mae ganddynt weledigaeth gadarn ar gyfer y dyfodol. Maent yn adolygu ansawdd y gofal yn rheolaidd ac yn casglu barn y rhieni, staff a'r plant wrth wneud hynny. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith a chaiff cofnodion eu cadw. Mae'r partneriaethau â'r rhieni yn gadarnhaol.

## Llesiant — Da

Mae’r plant yn hapus iawn ac wedi setlo yn y lleoliad. Maent yn adnabod y staff yn dda ac yn barod i fynd atynt i gael cyfarwyddyd neu gysur. Mae gan y plant ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn gyfarwydd â'r drefn o ddydd i ddydd. Gwyddant pa adnoddau sydd ar gael iddynt a lle gallant chwarae. Maent yn mwynhau amseroedd bwyd cymdeithasol, gan sgwrsio'n hapus gyda'u ffrindiau a'u staff. Mae'r plant yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt ymdeimlad o falchder. Er enghraifft, roeddent yn gwenu wrth i'r staff eu canmol am ymuno yn yr arwyddo a chwarae'r offerynnau.

Mae cyfleoedd da i'r plant leisio barn a gwneud dewisiadau. Maent yn gwybod y bydd y staff yn gweithredu ar eu safbwyntiau a'u diddordebau ac yn eu parchu. Maent yn hyderus i wneud dewisiadau eu hunain am beth maent eisiau ei wneud a lle yr hoffent chwarae. Mae'r plant iau yn cropian i'r ardal o'u dewis ac yn mwynhau'r adnoddau sydd o ddiddordeb iddynt megis llyfrau neu deganau sain. Mae'r plant yn hyderus wrth gyfathrebu â'i gilydd ac â'r staff. Er enghraifft, roedd y plant eisiau coginio'r afalau a oedd wedi syrthio oddi ar y goeden. Gofynnon nhw'n hyderus i'r oedolion am gymorth yn y gegin fwd i wneud hynny.

Mae'r rhyngweithio'n ardderchog. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda â'r staff sy'n gyfarwydd iawn iddynt. Maent yn mynd at y staff yn hyderus i gael cymorth neu os ydynt angen sicrwydd. Er enghraifft, gwelsom blentyn a oedd wedi blino yn mynd at y staff i gael mwythau. Mae'r rhyngweithio rhwng y plant yn gadarnhaol iawn hefyd ac maent yn meithrin cydberthnasau adeiladol. Wrth chwarae yn y dŵr maent yn cymryd eu tro i daflu'r peli, gan longyfarch ei gilydd am daro'r targed.

Mae'r plant yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu yn fawr iawn. Cânt lawer o hwyl wrth iddynt gyd-chwarae'n hapus gyda'i gilydd yn yr ardal ddringo. Ar ôl iddynt gyrraedd pen y ffrâm, roeddent yn gwenu ac yn cymeradwyo, gan ddathlu eu llwyddiant yn naturiol. Mae'r plant yn chwilfrydig ac yn awyddus i ddangos i'r oedolion beth maent yn ei ddysgu. Er enghraifft, roedd rhai plant eisiau dangos eu pêl i ni ac roeddent yn siarad am sut y glaniodd yn y dŵr. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn awyddus i ymuno yn y sesiynau grŵp bach ac yn ymateb i gwestiynau gan yr oedolion yn ystod y gweithgaredd.

Caiff y plant gyfleoedd da i ddatblygu annibyniaeth. Cânt eu cefnogi i gwblhau gweithgareddau o ddydd i ddydd ar eu pen eu hunain. Mae'r plant yn defnyddio'r cyfleusterau toiled yn hwylus ac yn golchi eu dwylo'n annibynnol. Maent yn ceisio gwneud pethau ar eu pen eu hunain yn naturiol cyn i aelodau staff ymyrryd, megis gweini bwyd i'w hunain a bwydo eu hunain. Maent yn symud o amgylch yr ardaloedd dysgu yn hyderus, gan gael gafael ar adnoddau i gefnogi eu diddordebau. Er enghraifft, symudwyd y conau i greu cwrs rhwystr a chafwyd llawer o hwyl yn teithio i'r diwedd. Symudodd eraill gewyll i greu cynefin i'r deinosoriaid, gan weithio gyda'i gilydd i drafod y cynllun gorau.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn cadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig, gan eu galluogi i ddelio â mân ddamweiniau yn hyderus. Mae'r staff yn hybu bwyta'n iach drwy baratoi prydau iach, a chynigir llaeth a dŵr i'w yfed. Maent yn cael hyfforddiant hylendid bwyd perthnasol ac yn dilyn gweithdrefnau fel rhan o'r broses rheoli heintiau er mwyn helpu i gadw'r plant yn iach ac yn ddiogel. Mae'r staff yn cynnal asesiadau amgylcheddol dyddiol sydd wedi eu nodi. Maent yn hyrwyddo llesiant corfforol y plant yn llwyddiannus drwy ymarfer corff rheolaidd, megis ioga a chwarae yn yr awyr agored. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda iawn o weithdrefnau diogelwch plant ac am eu dyletswydd i nodi unrhyw bryderon. Mae'r staff yn cadw cofnodion yn ymwneud â damweiniau a digwyddiadau sy'n cael eu llofnodi gan y rhieni. Maent yn cwblhau ymarferion tân rheolaidd sydd wedi eu hamseru a'u gwerthuso.

Mae'r staff yn deall y polisi rheoli ymddygiad yn llawn ac yn defnyddio technegau atgyfnerthu cadarnhaol yn gyson. Maent yn rhoi canmoliaeth ac anogaeth i'r plant yn rheolaidd am ymddygiad da ac am gyflawni eu nodau yn ystod amser chwarae. Mae'r staff yn fodelau rôl ragorol. Maent yn annog moesau da ac yn atgoffa'r plant i ddweud plîs a diolch yn ystod amseroedd bwyd. Dengys y staff ddiddordeb yng ngweithgareddau'r plant wrth iddynt chwarae ac maent yn trafod tasgau mewn ffordd gefnogol a thawel. Maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant yn eu gofal. Mae'r rhyngweithio bob amser yn gynnes, yn ddiddorol ac yn dangos dealltwriaeth a charedigrwydd sensitif a gwirioneddol tuag at y plant.

Mae'r staff yn sicrhau mai'r plant sydd wrth wraidd eu dysgu eu hunain. Maent yn cefnogi penderfyniadau'r plant yn llawn, gan ganiatáu iddynt gael cyfleoedd i archwilio dan do ac yn yr awyr agored a dilyn eu diddordebau eu hunain. Mae'r staff yn cefnogi anghenion ychwanegol y plant ac yn darparu ar eu cyfer. Maent yn cymryd camau pwrpasol mewn modd amserol ac yn gwneud defnydd effeithiol o'r strategaethau i gefnogi'r plant. Mae'r staff yn dechrau defnyddio dull mwy ymatebol o gynllunio, ac yn cynnig amrywiaeth eang o weithgareddau. Defnyddir cyfleoedd dysgu sy'n seiliedig ar chwarae a rhyngweithio cadarnhaol i hyrwyddo chwilfrydedd, cymryd risg a chynnal eu diddordeb ymhlith y plant. Defnyddir system gweithwyr allweddol. Mae'r gweithwyr allweddol yn arsylwi ar y plant, yn asesu eu cynnydd unigol ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio'r gwaith cynllunio. Fodd bynnag, nid yw'r broses gynllunio newydd yn gyson. Caiff y gweithwyr allweddol eu paru'n ofalus i gefnogi anghenion unigol y plant yn y ffordd orau sy'n cynnwys ystyried eu hanghenion ieithyddol. Mae llawer o'r staff yn fedrus wrth gefnogi sgiliau Cymraeg y plant. Mae cyfleoedd i ddatblygu'r Gymraeg yn cael eu darparu drwy ganeuon ac amser stori. Er enghraifft, mae'r staff yn hyrwyddo gallu'r plant i adnabod rhifau, lliwiau, emosiynau a geiriau mewn llyfrau stori.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad systemau a gweithdrefnau ar waith i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel. Mae'r ymwelwyr yn cyrraedd drwy'r brif fynedfa a chaiff cofnod o'r ymwelwyr ei gadw. Rhaid i'r staff arwyddo i mewn ac allan o'r adeilad a rhoddwyd system ar waith ar gyfer cofnodi egwylion y staff yn ystod yr arolygiad. Mae'r staff yn sicrhau bod deunyddiau glanhau yn cael eu storio'n ddiogel allan o gyrraedd y plant. Mae asesiadau risg ar gyfer ardaloedd dan do ac awyr agoredyn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhain yn llywio'r rhestrau gwirio dyddiol a gaiff eu defnyddio gan y staff i nodi risgiau i'r plant ac i'w dileu cymaint â phosibl. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr adeilad mewn cyflwr da a bod gwiriadau diogelwch yn cael eu cynnal a'u hadolygu mewn modd amserol.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod y plant yn cael gofal mewn amgylchedd sydd wedi'i gynllunio a'i osod i hyrwyddo eu hannibyniaeth ac i'w hannog i ddysgu. Mae'r ardaloedd chwarae yn tanio dychymyg y plant yn eithriadol o dda ac yn eu galluogi i gymryd risgiau, fel cyrraedd y llwyfan pren a theithio ar hyd llwybrau. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i'r plant feithrin eu sgiliau yn llwyddiannus. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu cyfleusterau sy'n galluogi'r plant i ddefnyddio'r toiled a'r basnau golchi dwylo yn annibynnol. Mae'r rhain, yn ogystal â'r cyfleusterau newid cewynnau yn sicrhau urddas y plant ac yn parchu eu preifatrwydd. Mae'r staff yn darparu ystafell gysgu addas ar gyfer y plant iau. Mae'r plant hŷn yn cysgu ar fatiau ac yn defnyddio blancedi unigol. Maent yn gwirio'r ardaloedd cysgu yn fanwl ac yn monitro'r plant sy'n cysgu. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wrthi ar hyn o bryd yn datblygu ardal awyr agored benodedig ar gyfer y plant iau a mwy o gyfleoedd i'r plant chwarae'r rhydd drwy'r ardaloedd dan do ac awyr agored. Mae'r staff yn sicrhau bod pob ardal yn cael ei threfnu'n bwrpasol er mwyn darparu amrywiaeth eang o brofiadau ysgogol sy'n annog y plant i symud o un gweithgaredd i'r llall yn effeithiol. Er enghraifft, mae cyfleoedd i blant dyfu eu bwyd eu hunain, megis mefus, a chael eu bwyta.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod yr adnoddau o ansawdd da. Mae'r dodrefn, cyfarpar a'r teganau yn briodol, o safon uchel ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod  ystod eang o adnoddau wedi eu cadw ar lefel y plant a bod modd iddynt gael atynt yn rhwydd. O ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd iawn â'r weithred o nôl cyfarpar a'i ddychwelyd i'r lleoedd priodol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad  yn darparu adnoddau ysgogol ar gyfer pob oedran a cham datblygu. Mae hyn yn hyrwyddo sgiliau'r plant drwy chwarae synhwyraidd, chwarae dychmygol a chreadigol,

gweithgareddau byd bach a chwarae corfforol. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd risgiau ac yn datblygu eu sgiliau drwy chwarae rôl yn y gornel gartref gan ddefnyddio 'offer gwir' megis cwpanau, soseri a thebotau. Mae'r adnoddau dychmygol hyn a'r dodrefn pren cadarn yn cynnig cyfleoedd addysgu a dysgu. Hefyd, caiff datblygiad personol a chymdeithasol y plant ei annog yn dda gan fod teganau a llyfrau amlddiwylliannol ar gael iddynt.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth — Da

Mae trefniadau arweinyddiaeth a rheolaeth y lleoliad yn dda. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maent yn ymgysylltu ag Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW) a sefydliadau eraill mewn modd amserol. Mae gan y person sy'n rheoli, weledigaeth glir ar gyfer y lleoliad ac maent yn elwa o gefnogaeth yr unigolion sy'n gyfrifol. Mae polisïau a gweithdrefnau addas ar waith a llawer o brosesau effeithiol wedi eu sefydlu. Mae manylion y polisïau allweddol wedi eu hamlinellu yn y llawlyfr i rieni a'r datganiad o ddiben. Er hyn, nid yw'r holl wybodaeth a ddarperir wedi ei alinio'n gyfan gwbl pan gaiff ei darparu i mewn i ddwy ddogfen. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cadw cofnodion ar gyfer y plant ac yn sicrhau bod y rhieni yn llofnodi'r rhain. Maent yn cynnwys contractau, caniatadau, ffurflenni gwybodaeth ac anghenion unigol.

Mae'r broses hunanwerthuso yn adlewyrchu ac yn nodi cryfderau yn ogystal â meysydd i'w gwella gan ystyried barn eraill. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi ymroi'n llwyr i ddatblygu. Maent yn barod i dderbyn adborth ac yn cymryd camau dilynol mewn perthynas â'r materion a godir heb oedi. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n hyderus i wneud awgrymiadau i ddatblygu, a'u bod yn gwybod fod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rheoli staff yn effeithiol ac yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn. Maent wedi mynd i'r afael â'r maes oedd i'w wella a nodwyd yn yr arolygiad CIW diwethaf, mewn perthynas ag addasrwydd y gweithwyr. Maent yn sicrhau bod digon o staff cymwysedig i ofalu am y plant a bod y gymhareb rhwng yr oedolion a'r plant yn cael ei chynnal, neu'n rhagori, bob amser. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sirhau bod y staff yn cwblhau cymwysterau gorfodol a bod gan yr holl staff dystysgrif Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) gyfredol. Maent yn cynnal cyfarfodydd goruchwylio ac arfarnu rheolaidd ac yn cynllunio ar gyfer datblygiad y staff. Er enghraifft, maent yn cefnogi rhai aelodau o'r staff i ymgymryd â dyletswyddau ychwanegol ac i ddatblygu yn eu rolau. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus iawn yn gweithio yn y lleoliad a'u bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi'n dda iawn gan yr arweinwyr, sy'n hawdd mynd atynt. Mae'r staff yn hyderus ac yn angerddol am eu gwaith ac yn gwerthfawrogi cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau i fod o fudd i'r plant yn eu gofal.

Mae'r partneriaethau yn dda. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad gysylltiadau cadarnhaol ag ystod eang o weithwyr proffesiynol, ysgolion a rhanddeiliaid eraill. Maent yn sicrhau bod yr holl gyfathrebiadau gyda rhieni yn werthfawr i allu hyrwyddo canlyniadau cadarnhaol i'r plant. Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisi a gweithdrefn gwyno ar waith er na dderbyniwyd unrhyw gwynion. Mae'r rhieni'n canmol y lleoliad yn fawr ac yn gadarnhaol iawn am y bobl sy'n rhedeg y lleoliad, y staff a'r gofal y mae eu plant yn ei gael. Dywedodd rhieni wrthym eu bod o'r farn bod y staff yn cefnogi anghenion unigol eu plant a bod eu plant yn hapus iawn wrth fynychu'r lleoliad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 28 | Mae 7 aelod o staff wedi eu cyflogi ac yn gweithio fel ymarferwyr yn y gwasanaeth heb eirdaon. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 7 - Cyfleoedd i chwarae a dysgu | Sicrhau bod y system gynllunio newydd yn gyson. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Adolygu polisïau a sicrhau bod y wybodaeth wedi ei halinio ar draws y ddogfennaeth. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 22/09/2023